SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU

# BWLETIN MISOL

## IONAWR 2024







CLILC WLGA

# Negeseuon gan dîm SSCE Cymru...



## Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol De Cymru

*“Blwyddyn Newydd Dda! Croeso yn ôl, gobeithio eich bod wedi cael gwyliau hamddenol a Nadolig hyfryd. Y tymor hwn, rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda mwy o ysgolion yn Ne Cymru i'w cefnogi i gyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog (AFFS) Cymru. Mae wedi bod yn gyffrous gweld ysgolion yn y De yn gweithio tuag at eu statws nesaf, ac ysgolion sydd newydd ddechrau ar eu taith gydag AFFS. Mae wedi bod yn anhygoel gweld y profiadau a'r cyfleoedd y mae hyn wedi'u cynnig i'ch plant Milwyr. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am ddod yn Ysgol sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni, byddwn wrth fy modd yn clywed gennych! Y mis hwn, mae gennym Ŵyl Lluoedd Arfog De Cymru ar gyfer plant milwyr a'u cyfoedion ar 23ain Ionawr ym Marics Maendy, Caerdydd. Bydd hwn yn ddiwrnod mor anhygoel i ddathlu ein plant milwyr yma yn Ne Cymru a dod â nhw at ei gilydd. Os hoffech i'ch plant Milwyr fod yn bresennol, rhowch wybod i mi gan fod y niferoedd yn llenwi - allwn ni ddim aros i'ch gweld chi i gyd yno!”*

**Ellis, Ellis.Regan@rctcbc.gov.uk**

## Swyddog Arweiniol Cyfranogiad



*“Blwyddyn Newydd Dda! Gobeithio eich bod chi i gyd wedi mwynhau eich gwyliau Nadolig ac yn barod am flwyddyn newydd. Wrth i ni ddechrau blwyddyn arall ac edrych ymlaen at dymor y Gwanwyn mae'n ein galluogi i ailffocysu ac ystyried dechrau prosiectau newydd. Roeddwn yn falch o gysylltu ag ychydig o ysgolion yng Nghymru tua diwedd y llynedd, a oedd yn awyddus i gymryd rhan mewn sefydlu Clybiau Bywyd y Lluoedd (Cynradd) neu Glybiau Bywyd y Lluoedd (Uwchradd) newydd yn eu hysgolion, i ddod â phlant / pobl ifanc y Lluoedd Arfog at ei gilydd a darganfod mwy am y grŵp hwn o fyfyrwyr a'u ffordd unigryw o fyw a phrofiadau. Os hoffai eich ysgol fanteisio ar y cyfle i wneud yr un peth a dangos sut rydych chi'n cefnogi plant/pobl ifanc eich Lluoedd Arfog ac eisiau rhywfaint o arweiniad ar sut i ddechrau, yna cysylltwch â mi neu eich Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol. Rydym yn edrych ymlaen at glywed oddi wrthych.”*

**Jo**, Joanna.wolfe@wlga.gov.uk

SSCE CYMRU

CLILC WLGA

Lansiwyd menter Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog (AFFS) Cymru SSCE Cymru yn 2022. Mae ysgolion yng Nghymru yn cwblhau cyfres o weithgareddau a chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â Rhestr Wirio Ysgolion SSCE Cymru, gan gynnwys rhai elfennau gorfodol, er mwyn cyflawni eu statws Efydd, yna Arian ac yna Aur. Yr amcanion yw ymgorffori arfer da ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau ac annog ysgolion i ymgysylltu'n well â chymuned eu Lluoedd Arfog.

**Y mis hwn, rydym yn falch o longyfarch yr ysgolion canlynol am gyflawni eu statws Efydd AFFS Cymru:**
Ysgol Y Felin (Sir gaerfyrddin)
Ysgol Uwchradd Llanwern (Casnewydd)

**Llongyfarchiadau** i bob ysgol sydd wedi cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru. Hyd yn hyn, mae 20 ysgol wedi cyflawni eu statws Efydd, mae 5 ysgol wedi ennill Arian ac mae 3 ysgol wedi cyrraedd Aur!!

20 | 5 | 3

**Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.**

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU

SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU

# Gŵyl y Lluoedd – De Cymru

**Mae SSCE Cymru yn gwahodd plant y Lluoedd Arfog a'u cyfoedion i Ŵyl y Lluoedd yng De Cymru!**

**Dyddiad:** 23 Ionawr 2024

**Amser:** 10:00 – 14:30

**Lleoliad:** Maindy Barracks, Caerdydd

**Dewch am ddiwrnod llawn gweithgareddau hwyliog gan gynnwys:**

- Sesiwn ‘Forces Fitness’
- Gweithgaredd barddoniaeth / ysgrifenu caneuon ‘Never Such Innocence’
- Sesiwn 'Your North'

**Ewch i wefan SSCE Cymru i archebu!**

**23 Ionawr 2024**

YourNorth

NEVER SUCH INNOCENCE

FORCES FITNESS

ARMED FORCES COVENANT

LLUOEDD ARFOG CYFAMOD



# Month of the Military Child

# Mis y Plentyn Milwrol

April/Ebrill | #MotMCCymru

## Sut y gall ysgolion gymryd rhan…

- Deall
- Ymgysylltu
- Dathlu

Gweler mwy o wybodaeth yma

ssce: CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# Rhagor o wybodaeth...

## E-ddysgu SSCE Cymru

LANSIO YN FUAN!

Mae tîm SSCE Cymru yn gyffrous iawn i fod wrthi'n gweithio gyda Walkgrove Ltd i ddatblygu pecyn e-ddygu ar alw, ddwyieithog, NEWYDD ar 'Cefnogi plant milwyr mewn addysg yng Nghymru', yn seiliedig ar gynnwys y sesiynau DPP sydd wedi cael eu cyflwyno'n llwyddiannus gan yr RSLOs dros y blynyddoedd diwethaf.

## Casglu data SSCE Cymru

Mae data'r llynedd a chynhelir gan SSCE Cymru yn dangos bod dros 35% o ysgolion yng Nghymru wedi cofrestru plant milwyr, gyda thua hanner y rheini gyda mond 1 neu 2.

Hoffai SSCE Cymru sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gref o nifer a lleoliad plant milwyr yng Nghymru. Felly, rydym yn gofyn i bob ysgol, os nad ydyn nhw eisoes, lenwi'r ffurflen ddigidol yma i roi'r cofnod mwyaf cywir i ni.

Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau hyn erbyn **31 Ionawr 2024.**

I'ch cefnogi gyda'r gweithgaredd hwn, byddem yn argymell eich ysgol i ystyried defnyddio Offeryn 4 SSCE Cymru (Llythyr templed at rieni/gofalwyr) neu ddefnyddio offeryn arolwg ar-lein am ddim (e.e. Ffurflenni Microsoft) i gasglu'r data.

Cysylltwch â'ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (RSLO) am gymorth.

Gweler mwy o wybodaeth yma

# Cyllid...

## Cronfa Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru

Yn 2023/24, gall ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am gyllid drwy gydol y flwyddyn, i gyflwyno prosiectau sy'n benodol i gefnogi plant milwyr mewn addysg, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yng Nghymru.

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

- Brosiectau £1,000 – sy'n agored i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru.
- Brosiectau £5,000 – Agored i ysgolion sydd wedi cyflawni statws efydd Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru a'r holl awdurdodau lleol.

**Gweler mwy o wybodaeth yma**

**DYDDIAD CAU NESAF: 9 Chwefror**

## Ddogfen cyngor ariannol SSCE Cymru

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor gan dîm SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid i gefnogi plant milwyr / cymuned y Lluoedd Arfog lleol.
Mae hefyd yn cynnwys rhestr wirio o gamau gweithredu awgrymedig i helpu wrth baratoi a chwblhau cais am gyllid a rhestr o syniadau ac awgrymiadau cyllido.

**Ar gael yma**

## Sesiynau galw heibio cyngor ariannu SSCE Cymru

Cyfle i ysgolion ac awdurdodau lleol gael trafodaeth anffurfiol gyda thîm SSCE Cymru yn ystod y sesiynau galw heibio rheolaidd hyn a gynhelir drwy gydol y flwyddyn rhwng 15:30-16:30. Ymunwch â'r cyfarfod rhithwir i ofyn cwestiynau, rhannu syniadau, trafod cydweithio a dysgu gan eraill.

- **Dydd Llun 15fed Ionawr**
- **Dydd Llun 5 Chwefror**
- **Dydd Mercher 6 Mawrth**
- **Dydd Mercher 17eg Ebrill**
- **Dydd Mawrth 14eg Mai**
- **Dydd Mercher 12fed Mehefin**

**Gweler mwy o wybodaeth am sut i ymuno â sesiwn yma**

## Cymorth rheoli achosion SSCE Cymru

Mae rheoli achosion ar gael i ysgolion sydd â phlentyn Lluoedd Arfog unigol neu nifer fach iawn o blant y Lluoedd Arfog sydd ag angen penodol sy'n gysylltiedig ag effaith ffordd o fyw eu Lluoedd Arfog.

**Gweler mwy o wybodaeth yma**

sscecymru

CLILC WLGA

# Cyllid...

## Cronfa Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru

Yn 2023/24, gall ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am gyllid drwy gydol y flwyddyn, i gyflwyno prosiectau sy'n benodol i gefnogi plant milwyr mewn addysg, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yng Nghymru.

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

- Brosiectau £1,000 – sy'n agored i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru.
- Brosiectau £5,000 – Agored i ysgolion sydd wedi cyflawni statws efydd Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru a'r holl awdurdodau lleol.

**Gweler mwy o wybodaeth yma**

**DYDDIAD CAU NESAF: 9fed Chwefror**

## Dogfen cyngor ariannol SSCE Cymru

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor gan dîm SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid i gefnogi plant milwyr / cymuned y Lluoedd Arfog lleol.
Mae hefyd yn cynnwys rhestr wirio o gamau gweithredu awgrymedig i helpu wrth baratoi a chwblhau cais am gyllid a rhestr o syniadau ac awgrymiadau cyllido.

**Ar gael yma**

## Cymorth rheoli achosion SSCE Cymru

Mae rheoli achosion ar gael i ysgolion sydd â phlentyn Lluoedd Arfog unigol neu nifer fach iawn o blant y Lluoedd Arfog sydd ag angen penodol sy'n gysylltiedig ag effaith ffordd o fyw eu Lluoedd Arfog.

**Gweler mwy o wybodaeth yma**